**Cyfarfod Cyhoeddus Pentref Tudweiliog**

**Yn y Lion Ionawr 22ain 2020**

Yn dilyn cyfarfod cyhoeddus ardal Tudweiliog o Gronfa Leol Eisteddfodd Genedlaethol 2021, gofynnodd y Cadeirydd Sian Parri (Cadeirydd Cyngor Cymuned), i drigolion Tudweiliog aros ar ol am ychydig gan fod pryderon ynglyn a newidiadau sydd ar y gorwel.

Rhoddodd Sian Parri weddill y noson drosodd i Susan Griffith.

Diolchodd Susan i bawb am aros, gan egluro y dymunai rannu hefo'r pentrefwyr nifer o newidiadau sydd yn debygol o ddigwydd ac efallai greu newidiadau mawr i'r pentref:

Yr Eglwys:

Adroddodd Susan fod penderfyniad wedi ei wneud i gau yr Eglwys, eglurodd fod hyn wedi bod yn benderfyniad annodd iawn, ond oherwydd nifer isel yr aelodau a'r gwaith gwario mawr sydd ar yr adeilad – doedd dim dewis ond cau. Bydd hyn yn digwydd diwedd mis Mawrth. Gofynnodd Susan i Dr Parry Smith ddod ymlaen i egluro'r sefyllfa, ac er fod y gynulleidfa'n gresynu fod hyn yn digwydd, roedd pawb yn deall y rhesymau dros gyrraedd y penderfyniad.

Eglurodd Susan y byddai Eglwysi Bro Madryn yn parhau i fod yn gyfrifol am y fynwent, ond y bydd dyletswydd ar yr ardal i barhau i gyfranu at gostau ei chynnal. Eglurodd hefyd fod y fynwent newydd yn annibynnol, bydd y pwyllgor sy'n bodoli yn parhau i ofalu am hon.

Y Siop a'r Post:

Yn dilyn penderfynniad Jane Williams i ymddeol, mae dyfodol y siop ar post yn annsicr. Dywedodd Susan iddi siarad hefo Stad Cefnamwlch au bod wedi datgan eu bod yn gwneud pob dim o fewn eu gallu i sicrhau y byddai rhywun yn parhau i gadw'r siop ar post. Trafodwyd yr oblygiadau pe byddai neb yn awyddus i'w chadw, fyddai'r gymuned yn ei chymeryd dosodd gan ei gwneud yn siop Gymuneol? Gofynnwyd i'r rhai oedd yn awyddus i hyn ddigwydd ddangos hynny drwy godi llaw, ymddengys fod pawb yn gefnogol. Penderfynnwyd felly y gellir mynd yn nol at y Stad a rhoi'r cynnig yma iddynt- os y byddent yn methu cael tenant yna bayddai'r pentref yn ei chymeryd a'i throi yn siop cymunedol. Roedd y pentrefwyr i gyd yn unfrydol fod angen diolch yn gynnes iawn i Jane ac Angharad am eu gwasanaeth dros y blynyddoedd .

Y Lion:

Mae'n wybyddus i bawb fod y Lion ar werth, diolchodd Susan ar ran y pentref i'r teulu am eu cefnogaeth a'u croeso dros yr holl flynyddoedd. Dymuna pawb y gorau iddynt.

Maes Parcio'r Lion:

Yn sgil y ffaith fod y Lion ar werth rhoddwyd rhybudd i'r ysgol na fyddai'n bosib defnyddio'r maes parcio ar ol haf 2020. Golyga hyn fod cyfrifoldeb ar y Cyngor Sir i greu maes parcio newydd. Mae

hyn bellach ar y gweill, gyda'r planiau terfynnol wedi eu gwneud. Eglurodd Einir Davies Pennaeth yr ysgol y bydd safle parcio i 12 car, ynghyd a cylchfan ple gall bws a cheir ollwn eu plant mewn man saff.  Bydd hyn yn cael ei leoli yn y cae tu cefn i'r Refail. Cafwyd addewid y bydd y safle parcio wedi ei gwblhau erbyn Medi 2020.

Y Ganolfan:

Gofynnodd Susan a fyddai'n bosib i Bwyllgor y Ganolfan ddod at eu gilydd yn fuan gan edrych ar y cynlluniau a'r planiau oedd ar y gweill rhai blynyddoedd yn ol.  Mae'r adeilad yn brysur ddirywio, ac mae angen gwneud rhywbeth yn go fuan. Cafwyd ar ddeall fod dwy gronfa ariannol yn bodoli, un ple mae arian wedi ei glustnodi ar gyfer adnewyddu'r Ganolfan ar llall at gynnal a chadw'r adeilad – diolchwyd i Adam Bryn Odol am fod yn gyfrifol am hyn. Gofynwyd felly am ail sefydlu'r pwyllgor, a penderfynnwyd cynnal cyfarfod wythnos nesaf Ionawr 29ain (yn dilyn cyfarfod y Gronfa Lleol).

Mrs. Wynnfinch:

Cafwyd ar ddeall fod Mrs WynnFinch yn gadael Cefnamwlch, dymuna'r pentref ddiolch yn fawr iddi am ei  chefnogaeth ar hyd y blynyddoedd.

Capel:

Adroddodd Parch Gwyn Rhydderch fod dyfodol y Capel yn ymddangos yn obeithiol iawn ar y funud, gyda gwasanaethau yno ar y Sul, Clwb y Pant a sawl digwyddiad arall yn cael eu cynnal.  Eglurodd hefyd fod y Festri mewn cyflwr da, gyda gegin buddiol, awgrymodd y gellid defnyddio mwy ar y festri fel Canolfan i'r Pentref. Gofynnwyd i Gwyn Rhydderch fod yn bresennol ym mhwyllgor y Ganolfan wythnos nesaf.

Diolchodd Susan unwaith eto i bawb am aros ac am eu brwdfrydedd, roedd gweld ymateb mor gadarnhaol yn galonogol  iawn.

Ychwanegodd Seimon Glyn Cynghorydd Sir, fod cefnogaeth ar gael gan swyddogion y Cyngor os bydd angen arweiniad gan y byddent yn hapus iawn i ddod allan i drafod.

Penderfynnwyd cyfarfod eto i drafod dyfodol y siop ac unrhyw fater arall ar 12fed Chwefror.